

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **12 Mehefin 2023** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Theilyngdod y Maer, Cyng. Elin Walker Jones; Cyng. Gareth Parry (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos Fôn Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) Sioned Jones (Cyfieithydd) a dau Aelod o'r Cyhoedd.

14/ 23 YMDDIHEURIADAU : Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Lisa Toth.

15/23 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

16/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

- (i) Mynychodd Siobhan Robson o *ABG Design* y Cyngor o bell i drafod Prosiect Arwyddion Bangor a gofynnodd am farn y Cyngor ar y pedwar cynllun lliw ar gyfer y map newydd i Fangor. Yn dilyn arddangosiad byr a thrafodaeth gofynnwyd i *ABG Design* fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y mater ymhellach.

17/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Adroddiad wedi ei ddsbarthu cyn y cyfarfod.

Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i anfon ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Roedd yr Adroddiad yn manylu ar y newyddion diweddaraf am lu o fentrau, gan gynnwys y newid i strwythur cymorth y cyfarfod a diwygio dyletswyddau staff. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, nid oes angen bellach i Hughes Dyson Accountants fewnbynnu cyfrifon y Cyngor. Roedd yr Adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad ar asedau'r Cyngor ac ar ddigwyddiadau'r Cyngor i ddod.

18/23 CYMERADWYO STRWYTHUR PWYLLGORAU'R CYNGOR A SEFYDLU PWYLLGOR STAFFIO.

Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Pwyllgor Staffio wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod.

Trafodwyd strwythur pwyllgorau presennol y Cyngor ac adroddwyd mai un o'r gwendidau yn y strwythur presennol oedd diffyg Pwyllgor Staffio parhaol. Byddai'n ofynnol i bwyllgor o'r fath gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn ond gellid ei alw yn amlach pe bai amgylchiadau'n gofyn am hynny.

Roedd Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Pwyllgor Staffio wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'w ystyried. Cafwyd trafodaeth pryd y cynigiwyd ychwanegu darpariaeth i sicrhau na fyddai mwyafrif aelodau un blaid wleidyddol ar y Pwyllgor Staffio.

PENDERFYNWYD: sefydlu Pwyllgor Staffio parhaol a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl arfaethedig gydag un mân ychwanegiad, sef na ddylid penodi mwy na thri Aelod o'r un blaid wleidyddol iddo. Bydd y Pwyllgor Staffio yn cynnwys y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Asedau a dau Gynghorydd ychwanegol. Penodwyd y Cyng Roberts a'r Cyng Fada.

19/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 24 EBRILL 2023.

PENDERFYNWYD: bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Ebrill.

20/23 YSTYRIED YMUNO AG UN LLAIS CYMRU

Roedd dogfen yn manylu ar fanteision bod yn Aelod o Un Llais Cymru wedi'i hanfon ymlaen llaw ac ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Dinesig ar rai o'r pwyntiau hyn. Dywedwyd bod Cyngor Dinas Bangor wedi ystyried bod y ffi ymuno yn rhy uchel yn y gorffennol, ond roedd cynnig ar hyn o bryd i ymuno ar ddisgownt o 50% am y flwyddyn gyntaf. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu gwerth Aelodaeth o'r fath.

PENDERFYNWYD: ymuno ag Un Llais Cymru a mesur y manteision ar ôl 12 mis.

21/23 TREFNU CYRSIAU HYFFORDDI I GYNGHORWYR.

Trafodwyd y manteision o gael Cyngorwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddi penodol i Gyngorwyr Cymuned, a fyddai'n galluogi'r Cyngorwyr a'r Cyngor i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a Chyngor Dinas Bangor yn ennill y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Tra bod cyrsiau ar-lein yn cael eu cynnig gan Un Llais Cymru, opsiwn arall a ystyriwyd oedd trefnu cwrs yn Neuadd y Penrhyn. Er bod sawl Cyngorydd wedi mynychu cyrsiau Cyngor Gwynedd fel Cyngorwyr Sir, pwysleisiwyd bod Cyngorau Cymuned yn cael eu llywodraethu gan wahanol reoliadau.

PENDERFYNWYD trefnu cwrs hyfforddi yn Neuadd y Penrhyn i gwmpasu'r pynciau sylfaen ac yna cynnig cyrsiau ychwanegol drwy Un Llais Cymru.

22/23 ADRODD AR DDATBLYGIADAU DIWEDDAR SYDD YN GYSYLLTIEDIG Â NANTPORTH

Rhoddyd gwybod i'r Cyngor fod Nantporth CIC newydd dderbyn buddsoddiad ariannol ac wedi defnyddio'r buddsoddiad i dalu ei ôl-ddyledion i'r Cyngor yn llawn. O'r herwydd nid oedd y CIC bellach yn torri amodau'r brydles ac o dan gyngor cyfreithiol, roedd yr achos llys felly wedi'i dynnu'n ôl.

PENDERFYNWYD: dirprwyo'r awdurdod i is-bwyllgor Nantporth i werthuso sefyllfa'r Cyngor a phenderfynu ar y ffordd orau o weithio gyda'r CID yn y dyfodol.

23/23 YSTYRIED CYNNIG I GODI TALIADAU PARCIO 10%

Trafodwyd cynnig gan Gyngor Gwynedd i godi ffioedd parcio ym meysydd parcio'r Ddinas o 10% ac i'r arian a godir o'r cynnydd hwn gael ei ddefnyddio i ychwanegu at incwm Cyngor y Ddinas.

PENDERFYNWYD: gwrthod y cynnig.

24/23 PROSIECT ARWYDDION – OPSIYNAU MAP

Yn dilyn cyflwyniad gan ABG o dan Cyfranogiad Cyhoeddus a'r ffaith eu bod wedi cytuno i fynychu'r cyfarfod nesaf, gohiriwyd yr eitem hon.

25/23 CAIS I SEFYDLU PROSIECT BWYD POETH

Cafodd cynnig i weithio gyda rhai o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor i sefydlu prosiect bwyd poeth ei ystyried gan y Cyngor. Mae'r cynllun, i sicrhau bod bwyd poeth ar gael i'r rhai yn y Ddinas sydd â'r angen mwyaf, ar fin dechrau, unwaith y mis i ddechrau, ond rhagwelir y bydd yn digwydd yn fwy aml ac y bydd yn dod yn ddigwyddiad cymunedol. Roedd dwy elfen

sylfaenol ynghlwm â chyfraniad Cyngor y Ddinas i'r prosiect, sef y defnydd o Neuadd y Penrhyn a chyfrannu grant sefydlu o hyd at £1,500.

PENDERFYNWYD: cefnogi dwy elfen y prosiect.

26/23 CEFNOGI GWYL HAF BANGOR

Derbyniwyd cais i'r Cyngor Dinas gymryd yr awenau wrth drefnu Gŵyl Haf Bangor ac i'r Cyngor yswirio'r costau neu roi grant o hyd at £13,000 (£5,000 wedi ei dderbyn ers paratoi'r rhaglen). Tynnwyd sylw at y ffaith fod llawer o'r gwaith trefnu wedi'i gwblhau gan grŵp Adfywio a Gweledigaeth Bangor a bod y grŵp hwn wedi sicrhau rhywfaint o arian.

Cafwyd trafodaeth fanwl pan godwyd rhai pryderon ynghylch cyfrifoldeb y Cyngor a'r swm sy'n cael ei warantu.

PENDERFYNWYD: bod Cyngor y Ddinas yn cymryd yr arweiniad trefniadol dros y digwyddiad ac yn yswirio costau llawn yr ŵyl (£18,000) hyd nes y bydd y grantiau amrywiol wedi'u cadarnhau a'u derbyn.

27/23 PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

28/23 CAIS CYNLLUNIO

Ystyriwyd cais cynllunio C23/0410/11/LL i newid tafarn yn 342 Stryd Fawr yn fwyty a siop tecawê ategol. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

29/23 Cymeradwyo Taliadau

Cymeradwywyd y rhestrau taliadau ar gyfer Ebrill a Mai 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR